St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

CANLLAW
CWRS




St David's
Coleg Catholig Dewi Sa
Catholic Sixth Form Col
Prif Adeilad
Main Building



Dewis eich cyrsiau

Yng Ngholeg Catholig Dewi Sant, rydym yn cydnabod yr heriau wrth ymchwilio ac yna ymrestru ar y pynciau a fydd yn mynd â chi ymlaen i brifysgol, prentisiaethau neu gyflogaeth.

Rydym yn deall, am y tro cyntaf yn eich addysg, fod gennych bellach reolaeth lwyr dros ddewis pa bynciau sy'n addas i chi, eich diddordebau a'ch dyheadau gyrfa.

Fyddwch chi ddim ar eich pen eich hun yn gwneud y penderfyniad hwnnw.

Fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer Coleg Catholig Dewi Sant, byddwch yn dewis hyd at bum pwnc ar eich cais yn gyntaf. Dim ond arwydd yw hwn o'r mathau o bynciau rydych am eu hastudio, ac nid yw'r pynciau yn cael eu cadarnhau nes i chi gofrestru yn y Coleg ym mis Awst, **ar ôl derbyn eich canlyniadau TGAU a chadarnhau eich bod yn cwrdd â'r gofynion**. Mae mwyafrif y myfyrwyr yn astudio tri chwrs Lefel A (neu eu cyfwerth) yn y Coleg.

Dylech edrych ar y canllaw hwn, a **gwefan y Coleg** i ymchwilio i bynciau. Byddwch yn dod o hyd i wybodaeth am sut y caiff y cwrs ei asesu, y mathau o fodiwlau y byddwch yn eu hastudio a beth all y cymhwyster hwnnw arwain ato. Yn bwysig, byddwch hefyd yn dod o hyd i'r meini prawf mynediad y bydd angen i chi eu bodloni i astudio'r pynciau hynny – y cyfan yn wybodaeth bwysig ar wneud penderfyniad hyderus am eich pynciau.

Ar ôl i chi wneud cais, byddwch yn cael **sesiwn arweiniad**. Sgwrs gydag athro yw hon, lle gallwch drafod pa bynciau sy'n addas i chi a'ch dyheadau gyrfa, a hefyd gofyn cwestiynau am y cyrsiau hynny i wneud yn siŵr eu bod yn bodloni eich anghenion. Pwrpas y sesiwn hon yw eich arwain i wneud y penderfyniadau cywir i chi.

Rydyn ni'n credu y dylai addysg ddatblygu'r person cyfan- yn academaidd, yn ysbrydol ac yn bersonol. Dyna pam mae pob myfyriwr yn cymryd rhan yn rhaglen Graidd Dewi Sant -set o dair elfen hanfodol wedi'u cynllunio i gefnogi dysgu, lles a thwf y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae Craidd Dewi Sant yn cynnwys:

Gwersi Bugeiliol
Lle pwrpasol bob wythnos i archwilio lles, perthnasoedd, datblygiad personol, a heriau bywyd modern. Mae'r sesiynau hyn yn helpu i feithrin hyder, gwydnwch, a hunanymwybyddiaeth wrth sicrhau bod cefnogaeth ar gael drwy gydol amser dysgwyr yn y Coleg.

Cydgerdded Ysbrydol
Wedi'i wreiddio yn ein hethos Catholig, mae gwersi Ysbrydol yn caniatáu i ddysgwyr fyfyrio a chysylltu â chwestiynau dyfnach ynghylch ystyr, pwrpas a ffydd. Trwy drafodaeth a myfyrdod, mae dysgwyr yn archwilio'r gwerthoedd sy'n llywio pwy ydym ni a phwy rydyn ni'n datblygu i fod.

Cymwysterau Sgiliau
Yn dibynnu ar eich rhaglen astudio, bydd dysgwyr yn cwblhau naill ai Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (ASBW) neu gymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru- gan ddatblygu sgiliau datrys problemau a meddwl yn feirniadaol Mae'r cymhwyster hwn yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd, astudio a gwaith — o ddatrys problemau a meddwl yn feirniadol i gyfathrebu a gwaith tîm. Mae'r rhain yn paratoi dysgwyr i ffynnu yn y brifysgol, mewn cyflogaeth a thu hwnt.





Y Rhaglen Anrhydedd

Mewn ymgais i ddarparu ar gyfer anghenion unigol ein myfyrwyr, rydym wedi sefydlu rhaglen sydd wedi'i llunio'n arbennig ar gyfer myfyrwyr sydd yn dangos dawn academaidd.

Bydd y myfyrwyr yma yn dangos diddordeb yn yr hyn sydd yn mynd ymlaen tu hwnt i ffiniau'r ystafell dosbarth, a dyheuad i archwilio i'r fath gwestiynau fydd yn ehangu eu golwg ar y byd a gwella'r gallu i gymryd rhan mewn trafodaethau academaidd.

Mae'r Rhaglen Anrhydedd wedi gweld nifer o'i myfyrwyr yn symud ymlaen i astudio graddau yn rhai o brifysgolion blaengar Prydain, mewn amrywiaeth o gyrsiau o Addysg i Swoleg. Mae ein record drôs y blynyddoedd o gynorthwyo ein myfyrwyr i gyflawni eu llawn botensial wedi'i adnabod a'i ganmol gan Brifysgolion, arolygwyr, rhieni a myfyrwyr.

Pwy sy'n gymwys?


Dyluniwyd y Rhaglen Anrhydeddau ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog. O'r herwydd, mae meini prawf mynediad academaidd uchel.

Yn arferol, rydym yn chwilio am ymgeiswyr gyda 25 pwynt, gan gyfrif canlyniadau TGAU fel; A* = 3, A = 2 a B = 1. Oherwydd cyfyngiadau ar le, rydym hefyd yn ystyried cryfder cais myfyriwr a chystadleurwydd eu graddau a gyflawnwyd o'i gymharu ag ymgeiswyr eraill wrth ymrestru. Nid ydym fel arfer yn ystyried cymwysterau galwedigaethol.

Mae gwneud cais i'r Rhaglen Anrhydeddau yn gofyn am gais ychwanegol i'ch cais i Goleg Dewi Sant. Ewch i **cymraeg.stdavidscollege.ac.uk/honours-programme-2/**



MATHAU O GYRSIAU



Lefel 3

Mae mwyafrif helaeth ein myfyrwyr yn astudio cwrs Lefel 3.

Bydd myfyrwyr a chanddynt o leiaf **chwech** C mewn TGAU yn gymwys i astudio cyrsiau Lefel A; bydd myfyrwyr a chanddynt **bump** C neu'n uwch mewn TGAU yn gymwys i astudio cyrsiau galwedigaethol.

Mae gan y mwyafrif o gyrsiau Lefel 3 ofynion mynediad penodol. Os gwelwch yn dda cyfeiriwch at wybodaeth y cyrsiau unigol am fanylion.

Lefel 2 & 1


Ar Lefel 2, mae'r Coleg yn cynnig cyrsiau blwyddyn sy'n briodol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn bodloni gofynion rhaglen Lefel 3.

Mae dysgwyr o Ysgolion Uwchradd Catholig yn cael blaenoriaeth i leoedd ar gyrsiau Lefel 2.

Ar ôl cwblhau ein rhaglen lefel 2 yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn cael eu gwahodd i ymgeisio am ein cyrsiau lefel 3.

Ar ôl cwblhau rhaglen lefel 2 yn llwyddiannus, caiff myfyrwyr eu gwahodd i ymgeisio ar gyfer cyrsiau lefel 3, yn ddibynnol ar gwrdd â'r gofynion mynediad. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau Lefel 1 yn llwyddiannus yn gallu symud ymlaen i Lefel 2.

CYRSIAU



Safon Uwch	Lefel 3
Diploma CBAC	Lefel 3
BTEC	Lefel 3
BTEC	Lefel 2

Mae'r wybodaeth cwrs yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg argraffu.

Ewch i **stdavidcollege.ac.uk** i gael rhagor o wybodaeth am gyrsiau.



PYNCIAU SAFON UWCH

- Addysg Gorfforol
- Astudiaethau Crefyddol
- Astudiaethau Ffilm
- Astudiaethau'r Cyfryngau
- Bioleg
- Busnes
- Celf a Dylunio
- Cemeg
- Cerddoriaeth
- Cyfrifiadureg
- Cymdeithaseg
- Cymraeg
- Daearyddiaeth
- Drama a Theatr
- Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch
- Economeg
- Ffiseg
- Ffrangeg
- Hanes (Modern)
- Iaith a Llenyddiaeth Saesneg
- Ieithoedd Treftadaeth Bydeang
- Llenyddiaeth Saesneg
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Mathemateg
- Mathemateg Ddwbl
- Sbaeneg
- Seicoleg
- Technoleg Ddigidol
- Y Gyfraith

Bydd pynciau sydd wedi'u marcio â * yn derbyn gradd gyfatebol mewn pwnc trafodol megis Hanes, Astudiaethau Crefyddol yn lle TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

Addysg Gorfforol

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at fyfyrwyr sy'n caru chwaraeon ac sy'n dymuno astudio chwaraeon, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr ochr ddamcaniaethol. Mae'r cwrs hwn yn galluogi myfyrwyr i berfformio'n effeithiol mewn gweithgareddau corfforol, ac mewn rolau fel perfformwyr, arweinwyr a swyddogion.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
		Lleiafswm o 6 TGAU gradd C neu'n uwch gan gynnwys BC mewn Gwyddoniaeth, C mewn Addysg Gorfforol a gradd CC mewn Saesneg Iaitha Llenyddiaeth. Rhaid i ymgeiswyr gystadlu ar lefel clwb, ardal, sir neu lefel uchel tebyg, wedi'i gadarnhau gan hyfforddwr presennol neu athro AG.*

Astudiaethau Crefyddol

Mae'r fanyleb UG ar gyfer Astudiaethau Crefyddol yn cynnwys dwy uned sy'n cynnwys ystod eang o bynciau i'w hystyried, gan gynnwys astudiaeth fanwl ac eang o Gristnogaeth, crefydd a moeseg ac athroniaeth crefydd. Mae'r fanyleb Safon Uwch yn galluogi dysgwyr i barhau â'u hastudiaeth systematig o'r tri maes hyn.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
		6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd CC yn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.*

Astudiaethau Ffilm

Mae cwrs Lefel A Astudiaethau Ffilm CBAC Eduqas yn cynnig cyflwyniad ardderchog i'r diwydiant ffilm yn yr Unol Daleithiau a'r DU, gyda gwaith yn cwmpasu'r cyfnod Hollywood Clasurol, Hollywood Newydd, ffilm annibynnol Americanaidd gyfoes a ffilm Brydeinig. Mae Astudiaethau Ffilm yn arwain at yrfaoedd yn y diwydiant ffilm a theledu, neu newyddiaduraeth. **Mae'r pwnc hwn yn gwrs llinol, sy'n golygu bod yn rhaid ei gymryd am ddwy flynedd cyn ennill unrhyw gymhwyster.**

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
		6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd CC yn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.*

Bydd pynciau sydd wedi'u marcio â * yn derbyn gradd gyfatebol mewn pwnc trafodol megis Hanes, Astudiaethau Crefyddol yn lle TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

Astudiaethau'r Cyfryngau

Mae myfyrwyr y cyfryngau yn astudio amrywiaeth o faterion a dadleuon mewn fformatau cyfryngau amrywiol. Dysgir y codau technegol a'r confensiynau sydd eu hangen i fyfyrwyr wrth lunio ffilm, byrddau stori, ysgrifennu sgriptiau, dadansoddi testun, damcaniaethau derbyn cynulleidfa, hysbysebu, cylchgronau, diwydiant teledu, sgiliau golygu digidol, technolegau cyfryngau newydd, marchnata digidol, gemau, dylunio gwe, ac ymchwilio i rym y cyfryngau.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd CC yn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.*		

Bioleg

Mae bioleg yn rhan gyffrous ond heriol o'r gwyddorau i'w hastudio. Mae blwyddyn gyntaf y cwrs hwn yn gydbwysedd da o Fioleg traddodiadol a phynciau mwy modern, tra bod yr ail flwyddyn yn rhoi sylw manwl i feysydd sylfaenol ffisioleg a damcaniaeth fiolegol. Gall bioleg arwain at lawer o yrfaoedd gofal iechyd, yn ogystal â gyrfaoedd yn gweithio gydag anifeiliaid, mewn ymchwil, bwyd neu'r amgylchedd.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd BB mewn TGAU Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl NEU radd B mewn Bioleg haen uwch, Gradd BB mewn TGAU Mathemateg a gradd BB mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Busnes

Mae Safon Uwch Busnes yn cyflwyno dysgwyr i'r amgylchedd busnes deinamig a phwysigrwydd y sgiliau sydd eu hangen i greu busnes a chynnal twf busnes. Mae sgiliau busnes yn ddefnyddiol mewn llawer o yrfaoedd, a gallant arwain at gyfrifeg, yswiriant, hysbysebu, rheoli, y gyfraith, marchnata, a llawer mwy - gan gynnwys dechrau eich busnes eich hun.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU yn cynnwys CC mewn TGAU Maths a gradd CC mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Celf a Dylunio

Bydd astudio Celf a Dylunio yn rhoi cyfle gwych i chi ddatblygu ystod eang o sgiliau creadigol cyffrous ac ysgogol. Gall y sgiliau creadigol y byddwch yn eu dysgu gynnwys lluniadu, graffeg, serameg, peintio, ffotograffiaeth, tecstilau a cherflunio. Gall astudio Celf a Dylunio arwain at yrfaoedd mewn Pensaernïaeth neu Ffasiwn, yn ogystal â swyddi dylunio fel animeiddio, artist tatw, dylunio theatr, neu ffotograffiaeth (ymhlith mwy).

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd C mewn Celf TGAU.		

Cemeg

Cemeg yw'r wyddoniaeth sylfaenol mewn cymdeithas. Mae'n chwarae rhan ym mhob agwedd o'n bywydau, o'r meddyginiaethau rydym yn eu defnyddio i'n cadw'n iach, i'r gwrteithiau rydym yn eu defnyddio i dyfu ein cnydau. Gall cemeg arwain at yrfa mewn gwyddoniaeth, a hefyd arwain at feysydd megis peirianneg, fferylliaeth, ymchwil, deintyddiaeth, yr amgylchedd, ac ystod eang o rolau gofal iechyd.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd BB mewn Gwyddoniaeth Ddwbl (neu radd B mewn Cemeg haen uwch), graddau BB mewn Maths a BB mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Cerddoriaeth

Mae cerddoriaeth yn integreiddio tair cydran perfformio, cyfansoddi a gwerthuso trwy astudio ystod o draddodiadau cerddorol. Ar lefel UG archwilir traddodiad Clasurol y Gorllewin trwy astudio cerddoriaeth gerddorfaol. Deuir ar draws idiomau cerddorol modern hefyd trwy theatr gerdd neu jazz, roc a phop. Yn Safon Uwch, mae astudiaeth o gerddoriaeth yr ugeinfed ganrif trwy waith gosod manwl yn darparu sylfaen eang ar gyfer mynediad i'r brifysgol a gyrfaoedd cerddorol.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd B mewn Cerdd TGAU neu radd 5 Theori a gradd 5 ar offeryn safonol neu'r llais.		

Bydd pynciau sydd wedi'u marcio â * yn derbyn gradd gyfatebol mewn pwnc trafodol megis Hanes, Astudiaethau Crefyddol neu Lenyddiaeth Saesneg, yn lle TGAU Saesneg.

Cyfrifiadureg

Mae Cyfrifiadureg yn dibynnu ar ddealltwriaeth o reolau ieithoedd penodol ar lefel sylfaenol ac mae angen meddwl rhesymegol, sgiliau datrys problemau a meddwl creadigol. Mae Cyfrifiadureg fel arfer yn arwain at yrfaoedd mewn datblygu meddalwedd, gemau neu'r rhyngrwyd.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd BB mewn TGAU Maths.		

Cymdeithaseg

Mae Cymdeithaseg yn bwnc ysgogol a deinamig. Mae myfyrwyr yn astudio unigolion o fewn cyd-destun cymdeithasol, sy'n cynnwys grwpiau, sefydliadau, diwylliannau a chymdeithasau a'r cydberthnasau rhyngddynt. Bydd myfyrwyr hefyd yn astudio sefydliadau cymdeithasol fel y teulu, addysg, y gyfraith, gwleidyddiaeth, y cyfryngau, a chrefydd.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd CC mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Cymraeg (Ail Iaith)

Rhoddir cyfle i fyfyrwyr fynegi eu hunain yn Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Bydd cyfle hefyd i ysgrifennu'n greadigol, darllen yn annibynnol, ymateb i wahanol destunau a gwerthfawrogi ffurfiau llenyddol. Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i ymarfer siarad Cymraeg gyda'r athro dosbarth, a myfyrwyr Cymraeg eraill. Efallai bydd cyfle i ymweld â Nant Gwrtheyrn, y Ganolfan Iaith Genedlaethol yng Ngogledd Cymru ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, e.e., Eisteddfodau.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd A*-C TGAU, gan gynnwys gradd B neu'n uwch mewn Cymraeg ail iaith Haen uwch ym mhob uned (nid cyfuniad)		

Daearyddiaeth

Mae Safon Uwch Daearyddiaeth yn annog dysgwyr i gymhwyso gwybodaeth ddaearyddol, damcaniaethau a sgiliau i'r byd sydd o'u cwmpas. Yn eu tro bydd hyn yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o bobl, lleoedd ac amgylcheddau'r byd yn yr 21G. Mae'r fanyleb yn tynnu ar ddaearyddiaeth ffisegol a dynol ac yn cynnwys pedwar diwrnod o waith maes gorfodol dros y ddwy flynedd.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd CC mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Drama a Theatr

Mae Drama a Theatr yn meithrin brwdfrydedd a gwerthfawrogiad beirniadol o'r celfyddydau dramatig trwy gyfrwng perfformiad neu lwybr cynhyrchu. Mae'n datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o arwyddocâd dylanwadau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol ar ddatblygiad drama a theatr. Mae Lefel A Drama a Theatr yn dueddol o arwain at yrfaoedd mewn actio, adloniant plant neu ddylunio theatr.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd CC mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth a gradd C mewn Drama. Gellir defnyddio Teilyngdod neu uwch mewn BTEC Lefel 2 Celfyddydau Perfformio yn lle Drama TGAU. *		

Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch

Mae Dylunio Cynnyrch yn cwmpasu set eang o sgiliau, y gallwch chi eu defnyddio mewn llawer o wahanol yrfaoedd academaidd a galwedigaethol. Mae llwybrau gyrfa nodweddiadol yn cynnwys peirianwyr, pensaernïaeth, dylunio graffeg, ffasiwn, adeiladu neu weithgynhyrchu.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 TGAU gradd C, gan gynnwys graddau CC mewn Maths a gradd CC mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. Gradd C mewn Celf neu Ddylunio a Thechnoleg TGAU os cymerwyd hwy. *		

Economeg

Mae prifysgolion a chyflogwyr fel ei gilydd yn ystyried cymhwyster Economeg dda yn fawr oherwydd ei allu i ddatblygu sgiliau dadansoddol a meintiol myfyrwyr, a datblygu'r rhinweddau a'r agweddau sy'n paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer heriau, cyfleoedd a chyfrifoldebau addysg uwch a bywyd gwaith.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 TGAU gradd C, gan gynnwys graddau BB mewn Maths a gradd BB mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Ffiseg

Mae'r cwrs UG yn cyfuno'r gorau o'r pynciau Ffiseg 'traddodiadol' megis mecaneg, defnyddiau, trydan ac ymbelydredd gyda'r syniadau mwyaf modern yn ymwneud â seryddiaeth, a Ffiseg cwantwm a gronynnau. Mae'r cwrs A2 yn caniatáu ar gyfer datblygiad ffiseg mewn lleoliad meddygol, ac yn cynnwys pynciau hanfodol a sylfaenol meysydd, ffiseg niwclear, a theori cinetig.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd AA mewn TGAU Maths, graddau BB mewn Gwyddoniaeth Dyfarniad dwbl neu radd B mewn Ffiseg Haen Uwch, a gradd BB mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Ffrangeg

Mae gan y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer ieithoedd tramor modern dri nod: eich helpu i ddeall ac ymateb i iaith lafar; deall ac ymateb i iaith ysgrifenedig; ac i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gall deall, siarad ac ysgrifennu Ffrangeg fod yn sgil ddefnyddiol mewn llawer o yrfaoedd, gan gynnwys diwydiant a masnach, teithio a thwristiaeth, newyddiaduraeth, chwaraeon, y gyfraith, bancio, yswiriant a llawer o wasanaethau'r llywodraeth.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd A*-C TGAU, gan gynnwys gradd B neu'n uwch mewn Ffrangeg (Haen Uwch).		

Bydd pynciau sydd wedi'u marcio â * yn derbyn gradd gyfatebol mewn pwnc trafodol megis Hanes, Astudiaethau Crefyddol neu Lenyddiaeth Saesneg, yn lle TGAU Saesneg.

Hanes

Mae Hanes Safon Uwch yn cymryd cyfnod o gynnwrf yng nghymdeithas y Gorllewin ac yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth gydlynol o'r gorffennol. Mae'r cwrs yn datblygu dealltwriaeth o gynnydd Prydain yn wleidyddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd (1880-1980) ochr yn ochr â chwmpas y Chwyldro Ffrengig (c.1774-1815). Yn A2, bydd dysgwyr hefyd yn astudio hawliau sifil Americanaidd a pholisi tramor, yn ogystal â chwblhau gwaith cwrs a ddewiswyd o ystod o bynciau modern a modern cynnar.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd CC mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. Os cymerwyd at TGAU, gradd C mewn Hanes. *		

Iaith a Llenyddiaeth Saesneg

Mae Iaith a Llenyddiaeth Saesneg yn bwnc sy'n gofyn i fyfyrwyr nodi ac ystyried y ffyrdd y mae agweddau a gwerthoedd yn cael eu creu a'u cyfleu ar lafar ac yn ysgrifenedig. Canolbwynt yr astudiaeth fydd dehongli iaith ysgrifenedig a llafar, i gynnwys barddoniaeth, rhyddiaith a drama yn ogystal ag amrywiaeth o destunau anllenyddol.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd CC mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.		

Ieithoedd Treftadaeth Byd-eang

Cwrs blwyddyn yw hwn a gynigir i fyfyrwyr sydd eisoes yn hyderus yn darllen ac yn ysgrifennu eu hiaith dreftadaeth. Mae cwrs Ieithoedd Treftadaeth Coleg Dewi Sant wedi'i gynllunio i ddarparu cefnogaeth strwythuredig i baratoi myfyrwyr ar gyfer Lefel Ac mewn Arabeg, Groeg, Portiwgaleg a Thyrceg (gellir ystyried ieithoedd pellach).

Lefel A	Pwnc Sengl	1 flwyddyn	Gofynion mynediad:
Rhaid i ddysgwyr ddangos lefel uchel o hyfedredd yn eu Hiaith Dreftadaeth ddewisol, wedi'i asesu trwy ffurflen gais ac wedi'i chymeradwyo gan athro'r cwrs. Mae'r cwrs yn gofyn am hunan-gymhelliant, ymrwymiad a sgiliau ymchwil cryf, gyda disgwyl i ddysgwyr ymgymryd ag astudiaeth annibynnol.			

Llenyddiaeth Saesneg

Anogir myfyrwyr Llenyddiaeth i ymwneud yn weithredol ag ystod o genres llenyddol o farddoniaeth i ryddiaith a drama. Byddwn yn canolbwyntio ar y ffordd y mae strwythur, ffurf, ac iaith yn llunio ystyr yn ogystal â llunio tebygrwydd arddull a thematig rhwng testunau. Mae yna hefyd gyfle sylweddol ar gyfer ysgrifennu gwreiddiol. Mae awduron testun craidd yn cynnwys: Charlotte Bronte, Christopher Marlowe, Philip Larkin, Carol Ann Duffy, Shakespeare, Geoffrey Chaucer, a William Blake.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd BB mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.		

Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Bydd Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yn galluogi myfyrwyr i astudio nifer o faterion sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a byd-eang cyfoes. Bydd y cwrs yn rhoi cipolwg da i ddisgyblion ar sut mae llywodraeth y DU yn gweithio, arwyddocâd ideoleg a'i heffaith ar bleidiau gwleidyddol.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, gan gynnwys gradd CC mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. Does dim gofyn am astudio gwleidyddiaeth yn flaenorol, fodd bynnag mae'n hanfodol ar gyfer y pwnc i gadw'n gyfredol â materion y dydd. *		

Mathemateg

Mae pwyslais y cwrs ar ddefnyddio a chymhwyso Mathemateg. Mae'r flwyddyn gyntaf yn datblygu'r gallu i resymu'n rhesymegol, ac i ddeall y berthynas rhwng problemau 'byd go iawn' a modelau mathemategol. Mae'r fanyleb A2 yn ymestyn ystod sgiliau a thechnegau mathemategol myfyrwyr ac yn eu defnyddio mewn problemau distrwythur anos. Bydd myfyrwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o berthnasedd Mathemateg i feysydd astudio eraill, i fyd gwaith, ac i gymdeithas yn gyffredinol.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd C TGAU, yn cynnwys BB mewn Mathemateg TGAU (Haen Uwch).		

Bydd pynciau sydd wedi'u marcio â * yn derbyn gradd gyfatebol mewn pwnc trafodol megis Hanes, Astudiaethau Crefyddol neu Lenyddiaeth Saesneg, yn lle TGAU Saesneg.

Mathemateg Bellach

Mae'r cwrs Mathemateg Bellach yn cynnwys cwblhau'r cwrs Safon Uwch Mathemateg mewn un flwyddyn, gan arwain ymlaen at gwblhau'r Lefel A Mathemateg Bellach yn yr ail flwyddyn. Bydd unrhyw fyfyriwr sy'n bwriadu dilyn gradd sy'n gysylltiedig â Mathemateg (peirianneg, y gwyddorau, cyfrifiadureg, cyllid/economeg, ac ati, yn ogystal â mathemateg ei hun) yn elwa'n aruthrol o gymryd Mathemateg Bellach, o leiaf i Lefel AS. Mae cymwysterau Mathemateg Bellach yn fawreddog ac yn cael eu croesawu'n fawr gan brifysgolion. Rhaid i ddysgwyr astudio 2 bwnc arall at Safon Uwch a'r Fagloriaeth Sgiliau.

Safon UG/Uwch	Pwnc Dwbl	Gofynion Mynediad
6 gradd C TGAU, yn cynnwys AA mewn Mathemateg TGAU (Haen Uwch).		

Sbaeneg

Mae gan y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer ieithoedd tramor modern dri nod: eich helpu i ddeall ac ymateb i iaith lafar; deall ac ymateb i iaith ysgrifenedig; ac i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gall deall, siarad ac ysgrifennu Sbaeneg fod yn sgil ddefnyddiol mewn llawer o yrfaoedd, gan gynnwys diwydiant a masnach, teithio a thwristiaeth, newyddiaduraeth, chwaraeon, y gyfraith, bancio, yswiriant a llawer o wasanaethau'r llywodraeth.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd A*-C TGAU, gan gynnwys gradd B neu'n uwch mewn TGAU Sbaeneg (haen uwch).		

Seicoleg

Mae Seicoleg yn bwnc hynod ddiddorol a fydd yn galluogi myfyrwyr i ddeall ymddygiad dynol a'r rhesymau pam rydym yn ymddwyn fel ydyn ni. Mae yna wahanol agweddau at Seicoleg ac yn ystod y cwrs byddwn yn astudio darnau allweddol o ymchwil a phynciau o ystod o'r meysydd hyn gan gynnwys ymddygiad troseddol, tystiolaeth llygad-dyst, ffobiâu, Awtistiaeth, perthnasoedd a therapïau fel seicolawdriniaeth. Bydd dysgwyr hefyd yn astudio dulliau ymchwil ac yn datblygu sgiliau rhifedd presennol trwy edrych ar ddata a dadansoddi'r hyn y mae'n ei ddweud wrthym am yr ymddygiad dynol a astudiwyd mewn ymchwil.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 gradd A*-C TGAU, gan gynnwys 1 gradd B mewn Gwyddoniaeth TGAU a gradd CC mewn Mathemateg TGAU.		

Technoleg Ddigidol

Mae'r cymhwyster Safon Uwch hwn yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r technolegau digidol a ddefnyddir gan unigolion a sefydliadau ledled y byd, gan gynnwys sut maen nhw wedi datblygu a sut maen nhw'n parhau i newid.

Safon UG/Uwch	Pwnc Dwbl	Gofynion Mynediad
O leiaf 6 gradd A*-C TGAU, gan gynnwys graddau CC mewn TGAU Mathemateg a CC mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Y Gyfraith

Mae UG y Gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr astudio meysydd fel y systemau cyfiawnder sifil a throseddol, cymhwyso'r gyfraith i senarios a chyfraith camwedd. Yn A2, bydd dysgwyr yn astudio cyfraith droseddol a chyfraith hawliau dynol, gan roi gwybodaeth eang iddynt am bynciau cyfreithiol craidd. Drwy gydol lefel UG a SU, bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau cyfreithiol fel cymhwyso'r gyfraith, llunio dadl gyfreithiol, dadansoddi senario ffeithiol a gwerthuso'r gyfraith.

Safon UG/Uwch	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
O leiaf 6 gradd A*-C TGAU, gan gynnwys graddau CC mewn TGAU Mathemateg a CC mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Bydd pynciau sydd wedi'u marcio â * yn derbyn gradd gyfatebol mewn pwnc trafodol megis Hanes, Astudiaethau Crefyddol neu Lenyddiaeth Saesneg, yn lle TGAU Saesneg.

O 2026/27 ymlaen, mae'r cymhwyster TGAU dyfarniad dwbl newydd mewn Iaith a Llenyddiaeth Saesneg wedi disodli'r hen gymwysterau ar wahân. Lle'r oedd y gofyniad mynediad yn nodi gradd C mewn Iaith Saesneg yn flaenorol, bydd angen i ymgeiswyr bellach gael graddau CC yn TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg. Ar gyfer cyrsiau perthnasol, mae'n bosibl y derbynnir gradd C mewn Hanes neu Astudiaethau Crefyddol yn lle hynny.

Gellir trafod unrhyw bryderon ynghylch y cymhwyster yn ystod Sesiynau Cyfarwyddyd.



PYNCIAU DIPLOMA CBAC

- Gwyddorau Meddygol
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Troseddeg

PYNCIAU BTEC LEFEL 3

- Busnes
- Celfyddydau Perfformio
- E-chwaraeon
- Gwyddoniaeth Gymhwysol
- Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon
- TG
- Y Gyfraith

Bydd pynciau sydd wedi'u marcio â * yn derbyn gradd gyfatebol mewn pwnc trafodol megis Hanes, Astudiaethau Crefyddol neu Lenyddiaeth Saesneg, yn lle TGAU Saesneg.

Gwyddor Feddygol

Mae'r Diploma mewn Gwyddor Feddygol gyfwerth ag un Lefel A. Mae'r cwrs yn ymdrin â chynnal iechyd ac atal a thrin afiechydon. Bydd dysgwyr yn caffael y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau mewn egwyddorion gwyddonol allweddol i gefnogi symud ymlaen i addysg uwch neu gyflogaeth mewn meysydd fel y gwyddorau ffisiolegol neu wasanaethau labordy clinigol. Mae'r cymhwyster yn cwmpasu iechyd, ffisioleg, ffarmacoleg, mesur ffisiolegol, profion clinigol ac ymchwil feddygol.

Diploma CBAC	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
		6 gradd C mewn TGAU, yn cynnwys graddau CC mewn Gwyddoniaeth Ddwbl NEU radd C mewn Bioleg. Rhaid cael gradd CC mewn TGAU Mathemateg a CC mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

Troseddeg

Mae Diploma Lefel 3 CBAC mewn Troseddeg yn gymhwyster ag elfennau o Seicoleg, y Gyfraith a Chymdeithaseg sy'n ategu astudiaethau mewn pynciau sy'n ymwneud â'r dyniaethau. Byddai'r cymhwyster yn cefnogi dilyniant dysgwyr o unrhyw astudiaeth ar Lefel 2, yn enwedig TGAU mewn Cymdeithaseg, y Gyfraith neu Seicoleg. Bydd y cwrs yn mynd y tu hwnt i'r astudiaeth academaidd draddodiadol gyda siaradwyr gwadd o asiantaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau/ymarfer y mae deunydd y cwrs Troseddeg yn eu cwmpasu.

Diploma CBAC	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
		6 Gradd C neu'n uwch mewn TGAU yn cynnwys CC mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *

Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Triphlyg)

Mae cymwysterau Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn addas os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n gwrs diddorol sydd â chynnwys amrywiol. I gwblhau'r cymhwyster, bydd angen i chi ymgymryd ag o leiaf 100 awr o ymgysylltu â'r sector, a rhaid treulio 60 awr o'r rheini yn ymgymryd â lleoliad gwaith. Bydd ymgysylltu â'r sector yn sicrhau eich bod yn cael profiad bywyd go iawn a chael y cyfle i brofi gwahanol rolau o fewn iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn llywio'ch gyrfa yn y dyfodol.

Mae'r cwrs hwn yn fwyaf addas ar gyfer unigolion sy'n dymuno dilyn gyrfaoedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol megis addysgu, gwaith cymdeithasol, ac ati.

Diploma CBAC	Pwnc Triphlyg	2 flynedd	Gofynion mynediad:

5 gradd C TGAU neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Os astudiwyd Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau - Teilyngdod neu uwch.

Busnes

Mae cwrs BTEC Busnes yn cynnwys unedau gorfodol i roi cyflwyniad i ddysgwyr i feysydd busnes allweddol, gan gynnwys marchnata, cyllid, rheoli digwyddiadau a busnes rhyngwladol. Asesir unedau yn fewnol ac yn allanol. Mae'r cwrs hwn yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy i ddysgwyr fel dadansoddi data, hyder a sgiliau cyflwyno a sgiliau TG – i gyd yn sgiliau sy'n werthfawr i gyflogwyr.

BTEC Lefel 3	Pwnc Dwbl	Gofynion Mynediad:

6 C mewn TGAU yn cynnwys graddau DD mewn TGAU Maths, a graddau DD mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *

BTEC Lefel 3	Pwnc Triphlyg	Gofynion Mynediad:

5 gradd C mewn TGAU, neu gymhwyster tebyg galwedigaethol, yn cynnwys gradd D mewn TGAU Maths, a graddau DD mewn TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *

Bydd pynciau sydd wedi'u marcio â * yn derbyn gradd gyfatebol mewn pwnc trafodol megis Hanes, Astudiaethau Crefyddol neu Lenyddiaeth Saesneg, yn lle TGAU Saesneg.

Ymarfer Celfyddydau Perfformio

Os ydych yn angerddol am Theatr Cerdd bydd y cwrs hynod ymarferol hwn yn rhoi hyfforddiant i chi i ddatblygu eich sgiliau yn y tair disgyblaeth: canu, dawnsio ac actio i ddod yn berfformiwr Theatr Cerdd amryddawn. Efallai mai eich uchelgais yw perfformio ar lwyfan mewn sioeau cerdd, llongau mordaith neu eich bod yn dyheu am berfformio i eraill fel rhan o'r diwydiant adloniant. Er taw cwrs triphlyg yw hwn, mae'n cyfrif am ddau bwnc ar eich amserlen felly bydd angen i chi gymryd un pwnc arall yn ogystal.

BTEC Lefel 3	Pwnc Triphlyg	Gofynion Mynediad:
5 gradd C mewn TGAU neu gymwysterau tebyg galwedigaethol, yn cynnwys gradd CC mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth a gradd C mewn Drama neu Gerddoriaeth TGAU, os astudiwyd hwy. Bydd disgwyl i ddysgwyr lwyddo mewn clyweliad gyda'r tîm addysgu Celfyddydau Perfformio. *		

E-chwaraeon

Mae Diploma BTEC Lefel 3 mewn E-chwaraeon wedi'i ddatblygu i ateb y galw sydd ar ddod am sgiliau yn y diwydiant e-chwaraeon sy'n tyfu'n gyflym. Dros gyfnod dwy flynedd o astudio, mae'n addas ar gyfer myfyrwyr sy'n anelu at gyflogaeth yn y diwydiant e-chwaraeon, o bosib via prentisiaeth, neu fynd i addysg uwch. Mae'r cymhwyster hwn yn cynnig cyfle unigryw i astudio meysydd niferus yn cynnwys chwaraeon, marchnata, mentergarwch, TG a phynciau creadigol.

BTEC Lefel 3	Pwnc Triphlyg	Gofynion Mynediad:
5 gradd C mewn TGAU neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth.		

Gwyddoniaeth Gymhwysol

Mae BTEC Gwyddoniaeth Gymhwysol yn gwrs galwedigaethol, sy'n golygu ei fod yn fwy ymarferol. Byddwch yn astudio ystod eang o bynciau gwyddonol o gemeg, ffiseg a bioleg, a byddwch hefyd yn dysgu sut i gymhwyso'r rhain mewn lleoliadau ymarferol. Mae'r asesiad trwy gyfuniad o arholiadau a gwaith cwrs. Mae'r Diploma yn gwrs dwy flynedd sy'n cyfateb i ddwy Lefel A tra bod y Dystysgrif Estynedig yn gwrs dwy flynedd sy'n cyfateb i un Safon Uwch.

BTEC Lefel 3	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
O Leiaf 6 gradd C TGAU, yn cynnwys CC mewn Gwyddoniaeth TGAU, CC mewn TGAU Maths a CC mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

BTEC Lefel 3	Pwnc Dwbl	Gofynion mynediad:
O Leiaf 6 gradd C TGAU, yn cynnwys CC mewn Gwyddoniaeth TGAU, CC mewn TGAU Maths a CC mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. *		

Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon

Mae Diploma Lefel 3 BTEC mewn Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon yn darparu cyflwyniad i fyfyrwyr a datblygu gwybodaeth a sgiliau'n ymwneud â'r diwydiannau chwaraeon a ffitrwydd. Nod y cwrs yw ysgogi a chynnal diddordeb a mwynhad myfyrwyr yn y diwydiant chwaraeon a datblygu sgiliau ymarferol a hyfforddi mewn amrywiaeth o chwaraeon, gan ganiatáu i chi symud ymlaen i gyflogaeth yn y diwydiant chwaraeon.

BTEC Lefel 3	Pwnc Triphlyg	Gofynion Mynediad:
5 gradd C TGAU, neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol. Os yw wedi'i gymryd, teilyngdod neu uwch mewn BTEC Lefel 2 Chwaraeon.		

Technoleg Gwybodaeth


Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn systemau TG, rheoli systemau, a chyfryngau cymdeithasol mewn busnes. Ar ôl cwblhau'r flwyddyn gyntaf yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn cael Tystysgrif BTEC Lefel 3 mewn TG (cyfwerth ag un Lefel UG). Ar ôl cwblhau'r ail flwyddyn, bydd myfyrwyr yn cyflawni Tystysgrif Estynedig BTEC Lefel 3 lawn mewn TG (cyfwerth ag un Lefel A).

BTEC Lefel 3	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 TGAU gradd C. Rhaid cael isafswm o DD mewn Maths TGAU.		

Y Gyfraith

Mae'r Dystysgrif Genedlaethol BTEC Lefel 3 mewn Cymhwyso'r Gyfraith yn gwrs bywiog ac ymarferol wedi'i lunio ar gyfer myfyrwyr sy'n dangos diddordeb yn sut mae'r gyfraith yn gweithredu mewn bywyd go-iawn. Mae'n cynnig cyflwyniad cryf i feysydd allweddol cyfraith Loegr wrth ddatblygu sgiliau gwerthfawr megis dadansoddi, datrys problemau, cyfathrebu ac ymchwil annibynnol. Strwythurir y cwrs mewn ffordd sy'n gymharol i lefel A gan gyfuno gwybodaeth gyfreithiol â dysgu cymhwysol, seiliedig ar senarios.

BTEC Lefel 3	Pwnc Sengl	Gofynion mynediad:
6 TGAU gradd C. Bydd graddau CC mewn Saesneg Iaith a Llenyddiaeth yn fanteisiol.		



LEFEL 2

Mae'r Rhaglen Lefel 2 un flwyddyn wedi'i chynllunio ar gyfer myfyrwyr sy'n awyddus i barhau â'u haddysg ond nad ydynt eto'n bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer cwrs Lefel 3. Mae'r rhaglen gefnogol a diddorol hon yn gweithredu fel carreg gamu, gan helpu dysgwyr i feithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen i symud ymlaen i gymhwyster Lefel 3.

Cynhyrchu Cyfryngau Digidol Creadigol

Lefel 2 | **Llawn amser** | **1 flwyddyn**

O fewn y cwrs, bydd dysgwyr yn ymdrin ag amrywiaeth eang o sgiliau cynhyrchu creadigol, byddant yn ymwneud â phrosiectau dylunio ac yn gweithio tuag at brosiect personol terfynol. Bydd y cwrs yn cynnwys gwaith unigol a grwp i ddatblygu sgiliau rhyngbersonol y dysgwyr ymhellach hefyd. Bydd y cwrs yn rhoi cyflwyniad i ddysgwyr i agweddau creadigol a thechnegol cynhyrchu cyfryngau creadigol.

Gwasanaethau Cyhoeddus (Mynediad at y Gwasanaethau Cyhoeddus)

Lefel 2 | **Llawn amser** | **1 flwyddyn**

Mae'r cwrs Lefel 2 Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n ystyried gyrfa yn yr Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub, Gwasanaeth y Carchardai, neu'r Fyddin, y Llynges neu'r Awyrlu. Drwy ystod o weithgareddau ymarferol a dosbarth, bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau arwain, gwaith tîm, cyfathrebu a datrys problemau wrth ennill dealltwriaeth o sut mae'r gwasanaethau hyn yn gweithredu. Caiff y cwrs ei asesu drwy waith cwrs a gwaith portffolio, gan gynnig cyfleoedd i gymhwyso'r dysgu i senarios tebyg i rai go-iawn. Mae'n cynnig llwybr ardderchog i nifer o gyrsiau lefel 3, ac yn helpu dysgwyr i fagu'r hyder, disgyblaeth a gwytnwch sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr ar draws y sector cyhoeddus.

Busnes

Lefel 2 | **Llawn amser** | **1 flwyddyn**

Mae cwrs Busnes Lefel 2 yn gymhwyster ymarferol, sy'n gysylltiedig â gwaith, wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr sydd â diddordeb mewn datblygu eu dealltwriaeth o sut mae busnesau'n gweithredu yn y byd go iawn. Mae'n darparu sylfaen gref ar gyfer astudiaeth bellach neu gyflogaeth lefel mynediad mewn meysydd sy'n gysylltiedig â busnes.
Bydd dysgwyr yn archwilio pynciau allweddol fel marchnata, cyllid, gwasanaeth cwsmeriaid, menter a gwaith tîm. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar gymhwyso cysyniadau busnes i sefyllfaoedd bywyd go iawn trwy brosiectau, aseiniadau a rhai arholiadau wedi'u hasesu'n allanol.

Bydd cwblhau cwrs Lefel 2 yn llwyddiannus yn galluogi dysgwyr i wneud cais at gyfer cwrs Lefel 3. Bydd gofynion mynediad Lefel 3 yn parhau i fod yn berthnasol.



LEFEL 1

Rhaglen Lefel 1

Lefel 1 **Llawn Amser**

Mae rhaglen Astudiaethau Galwedigaethol a Datblygiad Personol Lefel 1 Dewi Sant yn set o gymwysterau sy'n seiliedig ar sgiliau, wedi'u cynllunio i helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau personol a chymdeithasol sydd eu hangen i symud ymlaen at fyw'n annibynnol, cyflogaeth yn y dyfodol neu astudiaeth alwedigaethol bellach ar Lefel 2 ac uwch. Caiff hyn ei asesu gan staff Coleg Dewi Sant, sy'n golygu nad oes arholiadau.

Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs gyda chofnod da o astudio yn gallu gwneud cais i symud ymlaen i astudio ar Lefel 2.

Mae'n bosibl i fyfyrwyr Lefel 1 symud ymlaen i astudiaethau Lefel 3, ar ôl cwblhau rhaglenni Lefel 1 a Lefel 2, a byddai hyn wedyn yn darparu cymwysterau i'r dysgwyr i fodloni gofynion mynediad i raddau prifysgol, prentisiaethau a chyflogaeth.

Mae gan ddysgwyr o Ysgolion Uwchradd Catholig flaenoriaeth am lefydd ar gyrsiau Lefel 1.

Pam mae Meini Prawf Mynediad yn Bwysig?

Mae Meini Prawf Mynediad ar gyfer cyrsiau fel y gwiriadau diogelwch ar harnais dringo. Maent yno i sicrhau bod gan ddysgwyr y sgiliau angenrheidiol i fod yn llwyddiannus ar y cwrs hwnnw.

Nid dim ond cael tystysgrif TGAU ydyw, ond cael tystiolaeth o fod yn gallu gwneud y tasgau y mae pynciau Lefel 3 yn eu mynnu.

Mae llawer o bynciau'n gofyn am radd benodol mewn Saesneg neu bwnc sy'n seiliedig ar ysgrifennu fel cyfwerth. Mae hyn oherwydd pwysigrwydd sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig yn y pwnc hwnnw, a/neu ei fod yn Lefel A sy'n seiliedig ar draethawd.

Mae bodloni'r gofynion yn caniatáu i ddysgwyr ysgrifennu traethodau clir a strwythuredig, dadansoddi testunau a gwneud dehongliadau rhesymegol, yn ogystal â darllen yn feirniadol a chymhwyso gramadeg ac atalnodi cywir.

Mae llawer o gyrsiau hefyd yn gofyn am radd benodol mewn Mathemateg. Mae hyn oherwydd y gall y pwnc gynnwys rhifyddeg, fel defnyddio canrannau, cymhareb neu unedau'n rheolaidd. Gall gynnwys dehongli data trwy graffiau a siartiau, neu gall gynnwys cymhwyso mathemateg i broblemau byd go iawn, fel gwneud amcangyfrifon neu wirio atebion.

Mae'r meini prawf mynediad yn y llyfryn hwn yn amlinellu'r sylfeini sy'n angenrheidiol i reoli cyflymder a dyfnder astudio yn y Coleg, yn ogystal â'r sgiliau craidd sy'n ofynnol ar gyfer llwyddiant.







DILYNWCH 'STDAVIDSCOLLEGE' AR INSTAGRAM!

Mae'r wybodaeth cwrs yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg ei argraffu a gall newid drwy gydol y flwyddyn academaidd.

Ewch i **www.stdavidcollege.ac.uk** i gael rhagor o wybodaeth am gyrsiau.